**ELL 14-02(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 10 Gorffennaf 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgor 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Plaid Cymru | Conwy |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Delyth Evans | Llafur | Canolbarth a’r Gorllewin |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh, Dirprwy Weinidog | Llafur | Gorllewin Clwyd |
| Kirsty Williams | Democrat Rhyddfrydol | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

**Ymddiheuriadau**

Mick Bates

Cynog Dafis

Janice Gregory (ail hanner)

Jonathan Morgan (ail hanner)

Huw Lewis

**Eilyddion**

Delyth Evans am Huw Lewis

Kirsty Williams am Mick Bates (ail hanner)

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

**yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Yr Adran Addysg a Hyfforddiant (AAH) |
| Mike Harper | Pennaeth, Yr Adran Addysgu ac Arweinyddiaeth |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, Is-adran Rheolaeth Ysgolion |
| Elizabeth Williams | Pennaeth, Tîm Polisi Ieuenctid |
| Russell Dobbins | Tîm Polisi Ieuenctid |
| Asmita Raval | Tîm Polisi Ieuenctid |
| Michael Jones | Is-adran Rheolaeth Ysgolion |
| Malcolm Hobbs | Is-adran Rheolaeth Ysgolion |
| | |

**Yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Anthony Boden | Grwp Ffocws i Bobl Ifanc |

| | |
|---|---|
| Nina Yasmin Ali | Grwp Ffocws i Bobl Ifanc |
| John Williams | Arweinydd Prosiect 14-19, ar secondiad i’r Tîm Polisi Ieuenctid |
| Gary Brace | Prif Weithredwr, CACC |
| John Andrews | Cadeirydd, CACC |
| Mal Davies | Dirprwy Gadeirydd, CACC |

**Datganiadau Buddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; ei gwr yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith NATFHE |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig; ei wraig yn Brifathrawes, Arolygydd Ysgolion, aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Jonathan Morgan | Llywodraethwr Ysgol; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Helen Mary Jones | Athrawes Gofrestredig |
| Alun Pugh | Ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau’r cyhoedd i’r cyfarfod a gofynnodd i’r aelodau a oedd unrhyw ddatganiadau buddiant newydd. Nid oedd dim.

0.2 Dywedodd y Cadeirydd fod lansiad cyd-adroddiad y Pwyllgor gyda’r Pwyllgor Diwylliant ar yr adolygiad polisi ar y Gymraeg wedi bod yn llwyddiannus dros ben.

**Eitem Un: Ymestyn Hawliau**

***Papur: ELL 14-02(p.1)***

Croesawodd y Cadeirydd y swyddogion a dau o bobl ifanc o’r Grwp Ffocws i Bobl Ifanc: Anthony Boden a Nina Yasmin Ali i’r cyfarfod. Gyda’r Gweinidog yr oedd Iwan Williams a oedd yn y Cynulliad ar ôl ennill lle ar Raglen ‘Busnes yn y Gymuned’ i sicrhau Lleoliadau o Ansawdd ar gyfer Datblygiad Gyrfaol.

Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem yn fyr a chodwyd y materion canlynol:

- Byddai’r agenda Ymestyn Hawliau yn darparu mwy o lwybrau, dewisiadau a hyblygrwydd i bobl ifanc yng Nghymru.
- Yr oedd y Cynulliad wedi cymeradwyo’n unfrydol y Cyfarwyddiadau a Chanllawiau a luniwyd ar y cyd â’r Partneriaethau Pobl Ifanc (PPI).
- Dyma fyddai’r tro cyntaf yng Nghymru a’r DU i wasanaethau cefnogi ieuenctid gael eu darparu ar sail statudol. Deuai’r ddeddfwriaeth gysylltiedig i rym ar 1 Hydref 2002.

Tynnodd Elizabeth Williams, pennaeth y Tîm Polisi Ieuenctid, o Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad (AAH), sylw’r Pwyllgor hefyd at y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd pob PPI wedi cael cais i nodi a datblygu tair blaenoriaeth 18 mis mewn perthynas ag anghenion lleol.
- Yr oedd y PPI yn cynnwys amrywiaeth eang o gyrff ac unigolion ac yr oedd plant wedi’u cynnwys hefyd. Yr oedd rhaglen genedlaethol y PPI yn cyd-fynd â dymuniadau pobl ifanc.
- Yr oedd y Papur Gwyn Ewropeaidd ar Ieuenctid wedi cyfeirio at yr arferion gorau a geid yng Nghymru.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau a chodwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Wedi trafodaeth ynglyn â rhan y Sector Gwirfoddol a’r Sector Statudol, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi siarad yn ddiweddar â Phartneriaethau’r Sector Gwirfoddol a’i bod yn amlwg fod pryderon yn dechrau cael eu datrys. Byddai’r Gweinidog yn cyfarfod yn rheolaidd â phartneriaethau’r Sector Gwirfoddol a dywedodd fod Awdurdodau Lleol yn cael cyngor/cymorth hefyd.
- Mynegwyd pryder y gallai darpariaeth y PPI orgyffwrdd. Eglurodd y Gweinidog y gallai dwy Bartneriaeth fod yn cyflwyno’r un agenda, ac y gallent wynebu anawsterau am nad oedd digon o bobl yn manteisio ar y ddarpariaeth. Yr oedd angen edrych ar y ffordd orau i fuddsoddi arian yn strategol. Ychwanegodd Elizabeth Williams fod angen ad-drefnu adnoddau er mwyn bod yn deg â’r PPI i gyd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyfranogiad a chynrychiolaeth pobl o gefndiroedd ethnig/lleiafrifol a bodolaeth cydbwysedd rhwng y ddau ryw o fewn y PPI, dywedodd y Gweinidog y byddai cynrychiolaeth eang, yn wir, o bobl o’r ddau ryw, ac o gefndiroedd anabledd, gofal, a lleiafrifol, ymysg eraill.
- Cyhoeddwyd mai dim ond 50 y cant o’r cynlluniau cyflenwi blynyddol (blwyddyn gyntaf) a oedd wedi dod i law a gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw gamau wedi’u cymryd i annog y gweddill i’w cyflwyno. Gofynnwyd i’r PPI gyflwyno’u drafft cyntaf erbyn diwedd Gorffennaf fan bellaf. Yr oedd yn hanfodol sicrhau y byddai gweithredu’n digwydd yn lleol lle byddai’r PPI yn cael eu datblygu ar

seiliau cadarn.

- Cyfeiriodd aelodau at y tair blaenoriaeth leol y gofynnid i'r PPI eu datblygu, a holwyd a allai'r rhain fod yn flaenoriaethau treigl. Dywedodd Elizabeth Williams mai blaenoriaeth gyntaf y PPI fyddai nod y gallent ei chyflawni yn y tymor byr. Yr oedd swyddogion o Is-adran Polisi Ieuenctid yr AAH wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r PPI – yr oedd swyddog wedi'i glustnodi i bob PPI, a fyddai'n ymwybodol felly o unrhyw flaenoriaethau treigl arfaethedig.
- Gofynnwyd i Elizabeth Williams sut yr oedd cwestiwn ariannu adeiladau (ar gyfer eu cynnal a'u gwella) wedi'i drafod gyda'r PPI. Atebodd gan ddweud fod hyn yn fater a gâi sylw yn y cynlluniau strategol treigl pum mlynedd. Yr oedd archwiliad o'r ddarpariaeth eisoes wedi'i wneud.
- Gofynnodd aelodau pa adnoddau ychwanegol a gyfeirid at lefel awdurdod lleol ac i ba raddau yr oedd y Gweinidog yn cyfarwyddo awdurdodau lleol. Atebodd y Gweinidog y dyrannwyd £2m y llynedd a bod £3.75m wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol eleni; nid oedd hyn wedi'i bridiannu.
- Mynegwyd pryder gan rai ymarferwyr y byddai gweithwyr ieuenctid yn cael eu gorlwytho â chyfrifoldebau ychwanegol yn sgîl mwy o gyfarfodydd a chynllunio strategol. Sicrhaodd y Gweinidog y Pwyllgor fod y broses wedi'i chynllunio i fod mor syml ag oedd yn bosibl: yr oedd patrymau ar gyfer cynigion cynllunio strategol. Arweinid prosiectau o'r pen uchaf i lawr, h.y. gan y Prif Weithredwr neu swyddog wedi'i enwebu. Yr oedd un AALl yr oedd y Gweinidog wedi ymweld ag ef wedi cynyddu nifer y gweithwyr ieuenctid llawn-amser o 3 i 50, a oedd yn enghraifft o ymrwymiad yr AALlau. Byddai adborth gan Canllaw Online a Funky Dragon (Llais Ifanc gynt) yn hysbysu'r drafodaeth.
- Yr oedd peth pryder na fyddai gan bobl ifanc ran uniongyrchol yn y PPI. Dywedodd Elizabeth Williams mai'r prif reswm dros hyn oedd osgoi sioe wag. Byddai'n fwy buddiol trafod o fewn y PPI pam a sut i gynnwys pobl ifanc mewn unrhyw ddadl. Ychwanegodd y Gweinidog mai dyma'r farn a fynegwyd gan bobl ifanc eu hunain mewn pwyllgor. Byddai sefydlu cynghorau ysgol yn rhoi cynrychiolaeth i bobl ifanc ar PPI. Cyfeiriodd y Gweinidog at baragraffau perthnasol (20-24) yn y ddogfen Gyfarwyddiadau a Chanllawiau (papur ELL 14-02 (tud.1 Atodiad A).
- Yr oedd ar aelodau eisiau gwybod pa gymorth a gâi PPI i'w galluogi i wybod sut ac ym mhle i gael cyllid. Dywedodd Elizabeth Williams fod swyddogion o'r AAH yn cadw mewn cysylltiad â phob AALl i rannu'r wybodaeth hon.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog ac i Elizabeth Williams.

**Eitem Dau: Adolygiad Cwricwlwm 14-19**

***Papur: ELL 14-02(p.2)***

Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem gan bwysleisio'r pwyntiau canlynol:

- Gwnaed ymrwymiad i gynnal adolygiad o'r cwricwlwm 14-19 yn y ddogfen *Y Wlad sy'n Dysgu*.
- Yr oedd y prosiect yn golygu cydweithio gan bawb oedd yn ymwneud â'r sector 14-19 ac yr oedd John Williams (Prifathro Ysgol Uwchradd Pen y dre, Merthyr) wedi'i benodi'n Arweinydd Prosiect 14-19 a byddai Elizabeth Williams (Pennaeth y Tîm Polisi Ieuenctid) yn arwain ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Yr oedd y dull yn debyg i'r agenda Ymestyn Hawliau lle'r oedd unigolion yn rhydd i feddwl mewn gwahanol ffyrdd.
- Yr oedd yr holl waith a wnaethpwyd cyn ymgynghori wedi'i wneud mewn modd cynhwysol ac yr oedd llawer i ymfalchïo ynddo, fel cynlluniau Peilot y Fagloriaeth Gymreig.
- Yr oedd yn bwysig sicrhau nad oedd 16 oed yn bwynt gorffen i ddisgyblion, a gellid dysgu gwersi gan wledydd gwahanol fel Denmarc lle mae 95% o bobl ifanc 19 mlwydd oed un ai'n meddu ar

gymwysterau i gael swydd neu gymwysterau mynediad i Addysg Uwch.

- Byddai’r ymgynghori ffurfiol yn dechrau ar ddiwedd mis Hydref 2002 gan gynhyrchu cynllun gweithredu erbyn Ebrill 2003.
- Ystyrid barn y pwyllgor yn ogystal â chyflwyno papur ymgynghori i’r cyhoedd drwy gyfrwng gwefan y Cynulliad Cenedlaethol, Canllaw Online a 'The Funky Dragon', gan annog pobl ifanc i roi eu hadolygiadau.
- Y mater allweddol ynghylch yr adolygiad oedd sicrhau cyngor, arweiniad a chefnogaeth ddibynadwy.

Dangoswyd fideo 10 munud i’r Pwyllgor gan y ‘Grwp Ffocws i Bobl Ifanc’.

Tynnodd Nina Yasmin Ali sylw at y materion canlynol:

**Goresgyn Rhwystrau**

Yr oedd Prosiect RIMA yn rhoi cymorth tiwtor i ddisgyblion nad Saesneg oedd mamiaith eu rhieni i helpu gyda’u hastudiaethau. Cydnabu fod hyn yn gysur wrth geisio cymorth ond holodd a ddylid ymestyn y ddarpariaeth hon i bawb yn hytrach na dethol.

**Cynghorwyr Cyfarwyddol**

Teimlid fod eu presenoldeb yn rhoi tawelwch meddwl ac y gallai disgyblion fynd atynt yn gyfrinachol a chael cyngor priodol yn enwedig ar adeg arholiadau.

**Maes llafur**

Mynegwyd pryder nad oedd disgyblion ddim ond yn cael dysgu’r hyn oedd ar y maes llafur yn hytrach na gorfod dysgu i ledu eu gwybodaeth ac nid pasio arholiad yn unig.

**Gwaith cwrs**

Yr oedd consenswsymhlith disgyblion mai gwaith cwrs ddylai fod y dull gorau o asesu. Teimlid y dylai disgyblion gael dewis a bod hyn yn annog disgyblion i ddweud wrth athrawon beth yr oeddent yn ei wybod.

**Cyfnewid Tramor**

Yr oedd mwy o fudd i’w gael o fynd i wledydd tramor ac aros gyda theuluoedd yn hytrach na dysgu o werslyfrau neu ymweld â safleoedd yn unig.

**Amrywiaeth Pynciau**

Teimlid nad oedd digon o integreiddio a rhyng-gysylltiad rhwng ysgolion a sefydliadau.

**TGAU**

Yr oedd teimlad ymhlith disgyblion fod gormod o bynciau TGAU a bod angen cwtogi. Byddai hyn wedyn yn caniatáu i ddisgyblion ganolbwyntio mwy ar y pynciau hynny yr oeddent yn debyg o barhau â nhw i Lefel A.

**Prosiect RIMA**

Yr oedd y prosiect hwn yn cynnwys ysgol haf am wythnos hefyd. Dywedwyd fod disgyblion wedi bod yn amheus o'r syniad ar y dechrau ond eu bod wedi canfod wedyn ei fod yn brofiad gwych.

**Integreiddio Anabledd**

Credid fod angen integreiddio disgyblion anabl mewn ysgolion i rai iach o gorff er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion.

**Adroddiad**

Cydnabuwyd y bu'r cyfle i siarad â'r pwyllgor yn un arloesol.

Cododd Anthony Boden y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd Cymru'n wlad o botensial aruthrol ac yr oedd y diffyg ffocws ar ddiwylliant yn y cwricwlwm yn achos pryder. Yr oedd angen system eang ei seiliau a ganolbwyntiai ar ddiwylliannau cenedlaethol a byd-eang.
- Siomedig hefyd oedd anwybodaeth disgyblion am faterion y byd. Teimlai y dylai disgyblion neilltuo awr yr wythnos ar gyfer trafodaeth ar y pwnc hwn, heb gael arholiad ar y diwedd. Byddai hyn yn ehangu cymeriad disgyblion.
- Dylai pob disgybl gael cyfle i deithio dramor, gyda'r nod o wella addysg yr unigolyn.

Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i drafod yr adolygiad, a chodwyd y materion canlynol:

- Cydnabu'r aelodau fod disgyblion dan fwy o bwysau heddiw nag yn y gorffennol a bod yn rhaid iddynt weithio'n galed yn gyson. Gwnaed y sylw hefyd fod awydd y disgyblion am fwy o ddewis a chyfle i arbenigo yn cefnogi'r Fagloriaeth Gymreig newydd a oedd yn cael ei pheilota.
- Cafwyd trafodaeth ynglyn â Chynghorwyr Cyfarwyddol a holwyd ai yn ystod oriau ysgol y ceid eu cefnogaeth, ai dim ond i ddisgyblion â rhieni di-Saesneg ac a oeddent yn gyflogedig gan yr ysgol. Hysbyswyd yr aelodau y rhoddid y gefnogaeth yn ystod oriau ysgol, i ddisgyblion â rhieni di-Saesneg yn unig, a chan staff o'r tu allan i'r ysgol.
- Yr oedd consensws cyffredinol hefyd ymysg yr aelodau nad oedd disgyblion yn cael digon o addysg am faterion y byd. Yr oedd angen mwy o amser i ddatblygu syniadau a chytunodd yr aelodau'n gyffredinol y gallai fod yn fuddiol cynnig dewis i ddisgyblion rhwng arholiadau a gwaith cwrs.
- Yr oedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn gwybod a deimlai'r disgyblion fod gweithredu'r cwricwlwm newydd ar oed 14-19 yn ddigonol ynteu a ellid ei gychwyn yn gynt eto. Teimlai'r disgyblion y gallai fod yn beth da cychwyn yn gynt, er y teimlent fod angen ymgynghori â disgyblion ynghylch beth yr oedd arnynt eisiau ei ddysgu. Nodwyd hefyd fod cyflwyno arholiadau Lefel A/S flwyddyn yn unig ar ôl arholiadau TGAU wedi achosi problemau i lawer o ddisgyblion.

Rhoddodd Elizabeth Williams amlinelliad bras o'r prosiect gan danlinellu'r bwriad i fanteisio i'r eithaf ar yr arbenigedd sydd ar gael yng Nghymru a phwysigrwydd cynnwys pobl ifanc eu hunain.

Rhoddodd John Williams adroddiad cryno o gasgliadau'r Tîm Prosiect hyd yma ac ar eu meysydd astudio arfaethedig:

- Nodwyd fod y tîm wedi dadansoddi gwahanol fathau o dargedi. Yr oedd un model wedi'i seilio ar y drefn yn Nenmarc lle mae'n rhaid i ddisgyblion ennill cymwysterau naill ai ar gyfer gwaith neu addysg uwch. Trafodwyd amrywiadau ar y model hwn hefyd.
- Yn y model uchod, ni fyddai disgyblion yn gallu optio allan nes byddent wedi ennill cymhwyster canolraddol. Ni fyddent yn ennill y cymhwyster hwn fel arfer nes byddent yn 16 mlwydd oed.
- Yn gyffredinol ystyrid mai Saesneg, Cymraeg a Mathemateg oedd y gofynion craidd. Ystyrid hefyd fod addysg berthnasol i waith hefyd yn greiddiol i'r prosiect gan y rhagwelid o hyd y byddai llawer o ddisgyblion yn dal heb fod yn barod ar gyfer cyflogaeth. Yr oedd addysg anffurfiol neu all-gwricwlaidd yn bosibilrwydd hefyd.
- Ystyrid y dylai'r rhai oedd heb ennill cymhwyster canolraddol erbyn 16 oed fod wedi gwneud hynny erbyn 19 oed. Trafodwyd hefyd a oedd angen dull hyfforddi cryf wedi'i seilio ar waith i'r rhai na fyddai wedi ennill y cymhwyster erbyn 16 oed.
- Cynigiwyd y byddai'r strwythur TGAU presennol yn fwy addas pe bai'n anelu at ddarparu sylfaen. Gellid gwneud mwy o ddefnydd o bwyntiau asesu sy'n bodoli. Gellid cwrdd â'r syniad y dylai pob cwrs gael elfen gymhwysol hefyd drwy sgiliau allweddol.
- Cynigiwyd hefyd y dylid cymhwyso fframwaith credyd a chymwysterau i bob cwrs – gallai hyn fod yn gerbyd ar gyfer achredu addysgu mewn lleoliad gwaith. Yn dilyn llwyddiant y Fagloriaeth Gymreig cafwyd trafodaeth hefyd ar bosibilrwydd gostwng yr oed cychwyn cyrsiau i 14. Ymchwilid hefyd i bosibilrwydd cyflwyno 'nodau barcud' ansawdd ar gyfer darparwyr addysg anffurfiol.
- Mynegwyd pryder hefyd ynghylch baich gwaith athrawon a darparwyr iaith eraill. Byddid yn archwilio mater cydweithredu trawsffiniol rhwng y ddau.
- Yr oedd yn debygol y byddai angen arian ychwanegol gan na ellid cyflawni'r rhan fwyaf o fentrau dan y ddarpariaeth bresennol. Yr oedd angen hyrwyddo lledu mynediad yn ogystal â datblygu system fuddiannau.

Nododd y Gweinidog y byddai'r adolygiad yn hybu meddwl dychmygus gan ddisgyblion ac eraill yn y sector. Byddai'r adolygiad yn golygu hefyd y byddai'r pwyllgor yn ymwneud mwy â datblygu polisi yn ogystal â phobl ifanc. Byddai gwefan ar gyfer yr adolygiad ar gael yn fuan, ac anogid sylwadau ymateb.

Nododd aelodau eu bod yn awyddus i gynnal sesiwn arall ar yr eitem yn fuan yn nhymor yr hydref.

**Eitem Tri: Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC) – Datblygiad Proffesiynol Parhaus – Fframwaith i Athrawon**

***Papur: ELL 14-02(p.3)***

Yr oedd aelodau eisoes wedi derbyn copïau o gyngor CACC i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a'r adroddiad terfynol 'Gwerthusiad gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o'r Prosiectau Peilot ar gyfer Datblygiad Proffesiynol 2001-2002' gan yr Athrawon David Egan a Roy James.

Gwahoddodd y Cadeirydd John Andrews i roi cyflwyniad byr, pryd y codwyd y materion canlynol:

- Yr oedd DPP yn fater/flaenoriaeth ers sefydlu CACC
- Bu'n amlwg o gyfarfodydd gydag undebau'r athrawon fod darpariaeth DPP yn amrywio rhwng ysgolion ac AALlau
- Yn y gorffennol, ychydig o sylw a dalwyd i yrfaoedd unigol athrawon
- Yr oedd angen creu cyfleoedd cyffrous ar gyfer datblygiad proffesiynol yng ngoleuni recriwtio a chadw a'r strwythur rheoli perfformiad.
- Ar hyn o bryd, yr oedd y prosiectau peilot gwerthuso yng ngham dau. Yr oedd yr ymateb gan y proffesiwn dysgu ar gam un wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Yr oedd 1400 o athrawon wedi elwa o gam un a 500 o athrawon ar gam dau. Yr oedd yn bosibl fod angen prosiect peilot trydydd cam ac yr oedd yn hanfodol cadw'r momentwm i fynd yn y maes hwn. Yr oedd CACC yn gweithio tuag at nod o sefydlu haeddiant unigol i bob athro/athrawes erbyn 2004.
- Er mwyn i bob athro/athrawes gael eu £500-£600 haeddiannol erbyn 2004, roedd angen £20m i wneud i hyn ddigwydd.

Wedyn rhoddodd Gary Brace gyflwyniad PowerPoint yn crynhoi cyngor CACC i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar DPP. Rhoddodd Mal Davies yntau gyflwyniad llafar byr i'r Pwyllgor, y gellir ei grynhoi fel a ganlyn:

- Yr oedd rhai ysgolion wedi ymateb yn fwy cadarnhaol nag eraill i DPP; efallai fod a wnelo hyn â gwahanol arddulliau rheoli mewn ysgolion.
- Dylid nodi gofynion Rheoli Perfformiad wrth gynllunio ar lefel ysgol a lefel AALl.
- Deuai manteision tymor hir DPP i'r amlwg mewn staff proffesiynol myfyrgar. Ni ddylid ceisio ateb sydyn i godi sgiliau'r proffesiwn dysgu.
- Yr oedd angen cynyddu argaeledd a rhagolygon DPP i athrawon llanw hefyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i drafod materion yn ymwneud â fframwaith DPP gyda'r cyflwynwyr. Codwyd y materion a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

- Cyfeiriodd un aelod at Atodiad B cyngor CACC ar DPP a dywedodd y dylid cynnwys ennill hyfedredd yn y Gymraeg yn y rhestr hon o weithgareddau yr ystyrid eu bod yn briodol i DPP. Dywedodd y cyflwynwyr wrth y Pwyllgor nad oedd y rhestr yn ollgynhwysol ac y gellid defnyddio arian Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant ar gyfer y math hwn o weithgaredd.
- Teimlid y byddai athrawon a fu'n dysgu ers ugain mlynedd neu fwy yn grwp anodd i'w gyrraedd o ran manteisio ar gyfleoedd DPP. Clywodd y Pwyllgor y byddai'n her fawr ennyn brwdfrydedd yr athrawon hynny a oedd wedi gwneud dros ugain mlynedd o wasanaeth a gadael i'r athrawon hynny wybod y gallent ddal i fabwysiadu dulliau newydd ac ati. Byddai'n rhaid i athrawon o hir wasanaeth oresgyn yr her o adolygu eu perfformiad eu hunain ond dylent ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi'i gyflawni tra'n edrych am unrhyw fylchau yn eu perfformiad personol. Byddai llawer o athrawon â thros ugain mlynedd o wasanaeth yn nesáu at oed ymddeol hefyd.
- Cyfeiriodd aelodau at y tensiwn a fodolai rhwng y gost i ysgolion o ryddhau staff i ddilyn cyfleoedd DPP a llogi athrawon llanw i gymryd eu lle. Teimlid nad oedd angen o reidrwydd i ysgolion ddioddef anhwylustod oherwydd absenoldeb athrawon ar weithgareddau DPP. Yn Ne Swydd Lanark yn yr Alban, yr oedd cronfa o athrawon llanw wedi'i sefydlu i gefnogi athrawon a ymgymerai â DPP. Dywedodd cyflwynwyr wrth y Pwyllgor hefyd fod nifer yr athrawon llanw, o ganlyniad i'r broses gofrestru, yn fwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol.
- Teimlai rhai aelodau fod angen bod yn glir ynghylch ystyr 'haeddiant i bawb'. Hefyd, gallai athrawon

ddewis peidio â chymryd cyfleoedd DPP oherwydd y posibilrwydd o achosi straen i'w cydweithwyr. Felly, byddai'n fuddiol cynghori athrawon na fyddai ymgymryd â chyfleoedd DPP ar sail anffurfiol o reidrwydd yn tarfu ar gydweithwyr yn yr ysgol. Clywodd aelodau mai prifathrawon a'u staff oedd awduron y prosiectau ar gyfer dau gam cyntaf y cynlluniau peilot; bu ymweliadau i wylio cyd-athrawon yn boblogaidd – yr oedd hyn wedi golygu rhyddhau athrawon.

- Amcangyfrifai CACC fod angen rhyw £20m i warantu ei haeddiant unigol i bob athro/athrawes. Gofynnodd aelodau am ddadansoddiad o'r ffigur hwn. Dywedodd CACC wrth y Pwyllgor fod angen rhyw £500 yr athro/athrawes ar gyfer haeddiant sylfaenol.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod wrth ei bodd fod DPP wedi'i dargedu at yr amrediad llawn o athrawon ac nad oedd raid i athrawon 'fancio' amser ar gyfer gwyliau sabothol. Yr oedd digon o hyblygrwydd yn y system i ganiatáu i rai athrawon gael hyfforddiant DPP drutach yn gynnar yn eu gyrfa, os bernid fod hynny'n briodol.
- Gofynnodd y Gweinidog hefyd pa bryd y rhagwelai'r cyflwynwyr y byddai'r arian fyddai ar gael ar gyfer DPP yn gymesur â nifer y ceisiadau a dderbynnid. Dywedwyd wrth y Gweinidog fod 1004 o athrawon wedi gwneud cais yn ystod cam dau ac wedi derbyn eu grantiau unigol, ac y bu 127 o fentrau gan ysgolion. O'r £5m oedd ar gael, yr oedd £2.2m wedi'i wario. Byddai angen cynnal y momentwm hwn er mwyn bod wedi dyrannu'r arian i gyd erbyn Mawrth 2003. Pe bai cam dau yn mynd yn ei flaen fel y gwnaeth cam un, yna byddai'r arian wedi'i ddyrannu erbyn Chwefror 2003.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am ymddangos gerbron y Pwyllgor.

**Eitem Pedwar: Cyllidebau Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau)**

***Papur: ELL 14-02(p.4)***

Siaradodd Elizabeth Taylor, Pennaeth yr Is-adran Rheolaeth Ysgolion o Adran Addysg a Hyfforddiant (AAH) y Cynulliad, ar y papur gan dynnu sylw at y materion allweddol canlynol:

- Dyma fyddai'r dadansoddiad cyntaf o'r cyllidebau yr oedd yr awdurdodau lleol wedi'u pennu ar gyfer addysg am 2002-03. Gwneid dadansoddiad pellach yn yr hydref, gan gymharu â chyllidebau a osodwyd yn Lloegr.
- Yr oedd cyllidebau addysg awdurdodau lleol yn gyffredinol wedi cynyddu £101m (6.8%) i £1,590m. Cyllid oedd hyn ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, darpariaeth i blant dan bump heb fod mewn ysgolion (h.y. grwpiau chwarae), addysg oedolion a chymunedol, addysg barhaus arall yn cynnwys dyfarniadau gorfodol a dewisol i fyfyrwyr a rheolaeth strategol ar wahân i ysgolion, gwasanaethau a ddarperir yn ganolog gan AALlau i ysgolion a chyllidebau dirprwyedig ysgolion. Yr oedd hyn yn unol â'r cynnydd cyffredinol mewn cyllidebau refeniw o 6.77% a ganiatawyd yn y cytundeb refeniw llywodraeth leol – gan ystyried addasiadau sy'n effeithio ar wariant addysg. Yr oedd y cynnydd yn net o grantiau, ac eithrio'r grant o £89.843m gan ELWa ar gyfer darpariaeth ôl-16 i ysgolion.
- Bu cynnydd o 6.9% yng nghyllidebau gwasanaethau ysgolion, heb gynnwys grantiau (ar wahân i arian ELWa). A chynnwys yr holl grantiau, yr oedd y cynnydd yn 5.8% - gan adlewyrchu'r ffaith fod grantiau arbennig yn 2001-02 yn £43m; hyd yma yn 2002-03, yr oeddent yn £28.2m.
- O gynnwys y grant arbennig pellach o £18.7m a gynigiwyd ar gyfer costau trothwy, colofn gyflogau uwch a chostau arweinyddiaeth, yna byddai'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau ysgolion yn cynyddu 7% o £89m i £108m.
- Yr oedd cyllidebau dirprwyedig ysgolion wedi cynyddu bron £83m – twf o 7.1% i £1,250m. Fel yn 2001-02, yr oedd 81% o gyllid gwasanaethau ysgolion wedi'i ddirprwyo i ysgolion. O'r symiau a gadwyd ar gyfer gwasanaethau a ddarperid yn ganolog, gellid priodoli 1.6% i swyddogaethau

gweinyddol AALlau, o gymharu ag 1.7% yn 2001-02.

- Yr oedd yr amrediad yn lefel y cynnydd yng nghyllidebau gwasanaethau ysgolion awdurdodau lleol – 3.3% i 11.8% yn adlewyrchiad o'r disgresiwn a oedd gan awdurdodau lleol wrth drefnu eu cyllidebau yn ôl anghenion ac amgylchiadau lleol. Yr oedd AALl Abertawe wedi dewis rhoi pwyslais arbennig ar ddarpariaeth ieuenctid – sef y rheswm pam y cynyddodd eu cyllideb addysg gyffredinol 5.4% ond eu cyllideb ysgolion ddim ond 3.3%. Ceredigion, gyda chynnydd o 4.6 % oedd yr awdurdod a wariai fwyaf fesul disgybl o hyd. Ar ben arall y raddfa, yr oedd AALl Bro Morgannwg, gyda chynnydd o 11.8%, wedi rhoi adnoddau sylweddol i mewn, ond o sylfaen isel, a olygai mai hwy oedd yr awdurdod â'r cyllid isaf am bob disgybl o hyd.
- Yr oedd yr amrediad mewn cyllid fesul disgybl, sef £906, wedi aros yn ddigyfnewid mewn termau ariannol o'r sefyllfa yn 2001-02. Pe bai wedi tyfu yn unol â'r cynnydd yn y ddarpariaeth buasai wedi codi o ryw £60.

Diolchodd y Cadeirydd i Elizabeth Taylor am ei chyflwyniad ac wedyn gwahoddwyd yr aelodau i holi cwestiynau. Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd peth pryder fod rhai ysgolion yn teimlo, er gwaethaf y cynnydd yn y gwariant, nad oeddent yn ddim gwell arnynt nag o'r blaen a bod amrywiad o hyd rhwng AALlau o ran eu ffigurau cyllid ar gyfer pob disgybl. Cyfeiriwyd y Pwyllgor at y ffigurau a amlinellwyd yn Nhabl 6. Y ddau amrywiad mwyaf oedd maint ysgolion a chostau teithio, a wthiai'r cyllid fesul disgybl i fyny mewn awdurdodau gwledig. Er enghraifft, yr oedd gan AALlau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin niferoedd mawr o ysgolion bach. O ran a oedd ysgolion yn canfod eu bod yn well eu byd, yr oedd twf yng nghost cyflogau athrawon yn ddigon i gyfrif am lawer o'r cynnydd yn y cyllid. Yr oedd dyfarniad cyflog athrawon am 2002 yn 4% - oddeutu £40m i Gymru. Disgwylid i gostau croesi trothwy a dilyniant ar y golofn gyflogau uwch fod ryw £20m i fyny.
- Nododd un aelod fod amrywiadau mawr yn y gwariant ar weinyddiaeth ganolog fesul disgybl rhwng gwahanol AALlau fel a amlinellir yn nhabl 6, a gofynnodd a allai hyn fod oherwydd arferion cyfrifo gwahanol. Eglurodd Elizabeth Taylor na ddylai gweithdrefnau cyfrifon amrywio er ar lefel fanwl y gallai fod rhywfaint o wahaniaeth pwyslais. Yr eglurhad mwy tebygol oedd y ceid arbedion maint mewn awdurdodau mawr, e.e. mae'n rhaid i bob awdurdod gael strwythurau pwyllgorau ar gyfer addysg, beth bynnag fo nifer y disgyblion yn ysgolion yr awdurdod.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â'r gwahaniaethau, ac a oedd cydberthynas ag amddifadedd, dywedodd Elizabeth Taylor nad oedd, ond y dylid adlewyrchu amddifadedd i ryw raddau yn y costau fesul disgybl am brydau ysgol (am ddim) (Tabl 6).
- Yr oedd rhywfaint o drafodaeth ynghylch unrhyw weddill rhwng arian craidd ac arian a yrrir gan y fenter. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod hi wedi ymrwymo'n glir i gyfyngu ar faint o gyllid a oedd wedi'i yrru gan fentrau drwy'r gyfundrefn addysg yng Nghymru. Yr oedd y grant arbennig ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod wedi'i gydgyfnerthu yn y cytundeb refeniw llywodraeth leol.
- Gofynnodd yr aelodau a oedd cynlluniau i wneud cymariaethau trawsffiniol (Cymru a Lloegr) o gyllid fesul disgybl ac a allai dadansoddiad o'r fath ymestyn i edrych ar y cyllid ar gyfer ysgolion disglair unigol ac ysgolion arbenigol yn Lloegr. Cadarnhaodd y Gweinidog y darperid y dadansoddiad cymharol yn yr hydref ac y darperid cymariaethau fesul disgybl ar draws ffiniau siroedd. Ni fyddai'n bosibl mynd i lawr i lefel ysgolion unigol gan mai'r sail ar gyfer cymharu tebyg wrth debyg, o reidrwydd, fyddai ffigurau cyllideb addysg adran 52 gan AALlau.
- Eglurodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y wybodaeth ar y siartiau'n dangos y disgresiwn a oedd gan AALlau wrth wneud penderfyniadau cyllidebol. Yr oedd AALl Bro Morgannwg i'w llongyfarch ar eu cynnydd sylweddol yn eu cyllideb, er, oherwydd eu bod yn dechrau o sylfaen isel, yr oeddent yn dal i ddarparu llai o gyllid na'r un awdurdod arall ar sail fesul disgybl. I'r gwrthwyneb, cawsai

Ceredigion gynnydd cymharol fach yn y gyllideb ond gan eu bod yn dechrau o safle uchel yr oeddent yn dal i ddarparu mwy o gyllid na’r un awdurdod arall ar sail fesul disgybl. Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i ganiatáu i awdurdodau wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i egwyddor democratiaeth leol.

Diolchodd y Cadeirydd i Elizabeth Taylor am ei chyflwyniad.

**Eitem Pump: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Oherwydd y cyfarfod ychwanegol ar 4 Gorffennaf, câi cofnodion 4 Gorffennaf a 10 Gorffennaf (y cyfarfod hwn) eu cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a gynhelid yn nhymor yr hydref.

**Yr oedd dau Bapur i’w Nodi:**

**Canllawiau diwygiedig CCAH**

***Papur: ELL 14-02(p.5)***

**Adolygiad Polisi – Ysgol y Dyfodol: Cylch Gorchwyl** (a gadarnhawyd)

***Papur: ELL 14-02(p.6)***

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2002